# POLISI AR GYFRIFOLDEBAU MYFYRWYR YMCHWIL

| | |
|---|---|
| **Teitl Y Ddogfen** | Polisi ar Gyfrifoldebau Myfyrwyr Ymchwil |
| **Fersiwn** | 3.0 |
| **Dyddiad a gymeradwywyd gan y Senedd / ASQC** | Cymeradwywyd gyntaf: 19.06.2019<br>Fersiwn gyfredol: 17.05.2022 (Mân newidiadau) (ASQC) |
| **Dyddiad Dod I Rym** | 01.08.2021 |
| **Perchennog Y Ddogfen** | Llywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR) |
| **Cysylltu** | pgr@caerdydd.ac.uk |
| **Rheoleiddio Rhiant** | Rheoliadau Ymddygiad Myfyrwyr |
| **Dogfennau Cysylltiedig** | Polisi a Gweithdrefn ynghylch Monitro Myfyrwyr Ymchwil<br>Polisi Cyflwyno Traethodau Gradd Ymchwil a'u Diwyg<br>Côd Ymarfer Gonestrwydd Gwaith Ymchwil a'i Lywodraethu<br>Polisi Gonestrwydd Academaidd<br>Côd Ymarfer ar gyfer Addysgu gan Fyfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig |

**Cydymffurfio â Disgwyliadau ac Ymarferion Craidd Côd Ansawdd diwygiedig y DU ar gyfer Addysg Uwch.**

Mae’r polisi hwn yn cydymffurfio â Disgwyliadau ac Ymarferion Craidd Côd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch:

| **Disgwyliadau ar gyfer Safonau** | **Disgwyliadau ar gyfer Ansawdd** |
|---|---|
| Mae gwerth y cymwysterau a ddyfernir i fyfyrwyr wrth iddynt gymhwyso a dros amser, yn unol â'r safonau a gydnabyddir gan y sector. | O gael eu derbyn hyd at gwblhau, caiff yr holl fyfyrwyr y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo mewn addysg uwch, ac elwa ohono. |
| **Arferion Craidd o ran Safonau** | **Arferion Craidd o ran Ansawdd** |
| | Mae'r darparwr yn dylunio a/neu'n cyflwyno cyrsiau o safon uchel. |
| | Mae'r darparwr yn ymgysylltu'n weithredol â myfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, o ran safon eu profiadau academaidd. |
| | Mae gan y darparwr gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau sy’n deg ac yn dryloyw, ac sydd yn hygyrch i bob myfyriwr. |
| | Pan mae’r darparwr yn cynnig graddau ymchwil, mae'n cyflwyno’r rheini mewn amgylcheddau ymchwil perthnasol a chefnogol. |
| | Mae’r darparwr yn cefnogi pob myfyriwr i lwyddo yn academaidd ac yn broffesiynol. |
| **Arferion cyffredin o ran Aafonau** | **Arferion cyffredin o ran Ansawdd** |
| Mae’r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer safonau yn aml ac yn defnyddio’r canlyniadau er mwyn ysgogi gwelliannau. | Mae’r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer ansawdd yn aml ac yn defnyddio’r canlyniadau er mwyn ysgogi gwelliannau. |
| | Mae’r darparwr yn ymgysylltu â myfyrwyr yn unigol ac ar y cyd yn natblygiad, sicrwydd a gwelliant ansawdd eu profiad addysgiadol.. |

**Polisi ar Gyfrifoldebau Myfyrwyr Ymchwil**

Dylid darllen y ddogfen hon gyda Rheoliadau Ymddygiad Myfyrwyr, a'r polisïau a'r gweithdrefnau y cyfeirir atynt yn yr adrannau isod ac sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 1.

1. **Cyfrifoldebau cyffredinol**

1.1 Fel myfyriwr ymchwil yn y Brifysgol, disgwylir i chi:

.1 ymddwyn fel aelod cyfrifol o'r gymuned academaidd;

.2 cynnal safonau priodol o ymddygiad wrth i chi ymchwilio ac ymdrin â phobl eraill;

.3 ysgwyddo'r rhan fwyaf o gyfrifoldeb am eich rhaglen ymchwil, ac am ddatblygu eich prosiect a'i gwblhau ymhen y cyfnod a ganiateir.

2. **Deall gofynion**

2.1 Disgwylir i chi fod yn gyfarwydd â rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol sy'n berthnasol i'ch cofrestriad fel myfyriwr a'ch rhaglen gradd ymchwil, ac ymlynu wrthynt.

2.2 Ar adeg gynnar yn eich astudiaethau, disgwylir i chi wneud yn siŵr eich bod yn:

.1 ymwybodol o delerau eich rhaglen gradd ymchwil, gan gynnwys eich presenoldeb disgwyliedig, elfennau gorfodol o ran hyfforddiant ac unrhyw ofynion penodol a bennir gan eich noddwyr;

.2 deall rheoliadau a gweithdrefnau'r Brifysgol ynghylch iechyd a diogelwch, eiddo deallusol, trin data, moeseg a gonestrwydd ymchwil, a materion ariannol, fel bo'n briodol, gan geisio eglurhad lle bo angen;

.3 pennu protocolau priodol i gadw cofnodion perthnasol o'ch gwaith mewn ffordd fel y gallai unrhyw un sydd ag angen go iawn amdanynt eu gweld a'u deall;

.4 deall polisi'r Brifysgol ynghylch mynediad agored at ganfyddiadau ymchwil, a mynd ati o'r cychwyn cyntaf i ysgrifennu eich traethawd mewn modd fydd yn creu cyn lleied o gyfyngiadau â phosibl ar fynediad cyhoeddus oherwydd cyfrinachedd.

2.3 Os ydych yn ymgymryd ag unrhyw weithgareddau addysgu myfyrwyr neu arddangos, rhaid i chi ymlynu wrth y Côd Ymarfer ar gyfer Addysgu gan

Fyfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig.

3. **Gonestrwydd academaidd**

3.1 Gan ymgymryd â phrosiect ymchwil, gofynnir i chi ymlynu wrth y Côd Ymarfer Gonestrwydd Gwaith Ymchwil a'i Lywodraethu a'r Polisi Gonestrwydd Academaidd, ac ymlynu wrth eu hegwyddorion.

3.2 Er y bydd eich goruchwylwyr yn darparu cefnogaeth ac arweiniad ar yr hyn sy'n ymarfer ymchwil da yn y ddisgyblaeth ac yn eich cyfeirio at hyfforddiant priodol, rydych chi'n gyfrifol am ddeall y safonau trylwyredd a gonestrwydd disgwyliedig sy'n berthnasol i'ch ymchwil, ac am gynnal y safonau uchaf o ran trylwyredd a gonestrwydd yn eich gwaith bob amser.

3.3 Eich cyfrifoldebau chi fydd:

.1 ymlynu wrth ofynion gorfodol o ran hyfforddiant gonestrwydd ymchwil a moeseg ymchwil;

.2 cydymffurfio â fframweithiau, rhwymedigaethau a safonau moesegol, cyfreithiol a phroffesiynol perthnasol;

.3 sicrhau bod eich ymchwil yn destun ystyriaeth weithredol a phriodol o faterion moesegol;

.4 sôn am unrhyw ansicrwydd sydd gennych ynghylch normau gwaith ymchwil a dderbynnir gyda'ch goruchwylwyr cyn gynted â phosibl fel y gallant roi cyngor a/neu drefnu hyfforddiant;

.5 gwneud yn siŵr mai chi biau'r gwaith a'r syniadau yr ydych yn eu cynhyrchu ar gyfer asesiad, adolygiad neu unrhyw ffurf ar gyflwyniad i unrhyw gynulleidfa, ac eithrio ffynonellau a chyfraniadau a ganiateir, a bod y rhain wedi'u priodoli'n gywir;

.6 gwneud yn siŵr bod eich dulliau ymchwil, eich gweithdrefnau, eich canfyddiadau a'ch data wedi'u hadrodd yn onest;

.7 gwneud eich dulliau ymchwil, eich gweithdrefnau, eich canfyddiadau a'ch data'n agored i feirniadaeth, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau ar gyfrinachedd oherwydd cytundeb ysgoloriaeth.

4. **Gweithio gyda'ch goruchwylwyr**

4.1 Fel myfyriwr ymchwil, disgwylir i chi fanteisio'n llawn ar eich goruchwyliaeth. Ar ddechrau eich rhaglen, disgwylir i chi gwrdd â'ch goruchwylwyr a thrafod yr hyn y maent yn ei ddisgwyl gennych, eu rolau a'u cyfrifoldebau perthnasol, a sut bydd y broses oruchwylio'n gweithio mewn gwirionedd.

4.2 Yn benodol, disgwylir i chi:

.1 fod yn barod i drafod patrwm gwaith priodol â'ch goruchwylwyr, gan gynnwys amserlen o gyfarfodydd (o leiaf un cyfarfod ffurfiol y mis), a'r math o arweiniad sy'n ddefnyddiol i chi;

.2 ymgysylltu â'ch goruchwylwyr i egluro nodau'r ymchwil a chanfod yr hyfforddiant ymchwil sydd ei angen, ar sail rhestr eiddo wedi'i diweddaru ar gyfer eich anghenion am hyfforddiant;

.3 cynnal agwedd broffesiynol at eich goruchwyliaeth, gan wneud yn siŵr eich bod yn paratoi'n briodol ar gyfer cyfarfodydd ac yn cadw at derfynau amser ar gyfer cyflwyno gwaith a bennir;

.4 gytuno ar ddull gyda'ch goruchwylwyr o gadw cofnodion cyfarfodydd goruchwylio ffurfiol, a chadw copïau o'r cofnod;

.5 bod yn onest gyda'ch goruchwylwyr os ydych yn cael anawsterau gyda'ch prosiect neu ddeall adborth;

.6 derbyn gwerth beirniadaeth adeiladol a cheisio gwerthusiad o gryfderau a gwendidau eich gwaith gan eich goruchwylwyr;

.7 ystyried arweiniad ac adborth, a chamau cyweiriol a gynigir gan eich goruchwylwyr pe byddai problemau'n codi;

.8 cadw mewn cysylltiad rheolaidd a mynych â'ch goruchwylwyr, gan gynnwys pan rydych i ffwrdd o'r Brifysgol, a bod yn rhagweithiol wrth gynnal cysylltiad pan mae angen;

.9 trafod cyfnodau o absenoldeb yr ydych yn eu cynllunio, fel trefniadau gwyliau, â'ch goruchwylwyr, a cheisio caniatâd priodol;

.10 rhoi gwybod i'ch goruchwylwyr am unrhyw amgylchiadau fydd yn effeithio ar yr amserlen a bennir ar gyfer cyfarfodydd a chyflwyno gwaith, a thrafod opsiynau rhesymol eraill;

.11 cydnabod bod cryn alw ar amser goruchwylwyr, a bod yn ymwybodol na allant ymateb i chi'n syth.

## 5. Eich hyfforddiant a'ch datblygiad

5.1 Eich cyfrifoldeb chi yw cymryd rhan yn y cyfleoedd am hyfforddiant a datblygiad y cytunir arnynt â'ch goruchwylwyr a/neu'r Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig.

5.2 Disgwylir i chi fanteisio ar gyfleoedd i ymgysylltu â phobl eraill yn yr amgylchedd ymchwil.

5.3 Yn rhan o’r Polisi a’r Weithdrefn ynghylch Monitro Myfyrwyr Ymchwil, gofynnir i chi gadw cofnodion o’ch ymchwil a’ch datblygiad proffesiynol.

## 6. Eich rhaglen gradd ymchwil

6.1 Os ydych yn ymgymryd â rhaglen gradd ymchwil, disgwylir i chi ysgwyddo’r cyfrifoldeb am gynnydd a gonestrwydd eich gwaith, ac am eich datblygiad fel ymchwilydd proffesiynol.

6.2 Disgwylir i chi neilltuo digon o amser i astudio er mwyn gwneud cynnydd boddhaus parhaus, gan wneud yn siŵr nad yw galwadau eraill ar eich amser yn tarfu ar eich cynnydd. Os ydych wedi cofrestru ar gyfer rhaglen amser llawn, dylai eich ymrwymiad amser ar gyfer astudio fod yn gywerth â gweithio’n amser llawn, a dylai fod yn gywerth â pro-rata os ydych yn astudio’n rhan-amser.

6.3 Yn benodol, disgwylir i chi:

.1 gymryd rhan yn y sesiwn ymsefydlu a gynhelir gan eich Ysgol a’r Brifysgol, ac unrhyw sefydliad partner lle bo’n berthnasol;

.2 datblygu a chynnal Cynllun Ymchwil sy’n diffinio nodau a chwmpas eich prosiect, amserlen i’w gyflawni, ynghyd â phrif gamau eich ymchwil a’ch hyfforddiant ymchwil;

.3 trefnu ac ymgymryd â’ch gwaith yn unol â’ch Cynllun Ymchwil y cytunir arno;

.4 bod yn ymwybodol o ofynion academaidd eich rhaglen, y safon a ddisgwylir o’r gwaith a’r digwyddiadau i fonitro cynnydd;

.5 ymlynu wrth y Polisi a’r Weithdrefn ynghylch Monitro Myfyrwyr Ymchwil;

.6 gweithio tuag at safon addas ac ysgolheigaidd o Saesneg/Cymraeg ysgrifenedig ac ar lafar, ar gyfer gofynion monitro a’r arholiad o’ch traethawd;

.7 dilyn cyngor Iechyd a Diogelwch ar bob adeg, gan gynnwys wrth i chi ymgymryd gwaith maes neu astudio y tu hwnt i’r Brifysgol;

.8 gwneud defnydd priodol o'r cyfleusterau astudio ac ymchwilio ac, os oes angen rhannu cyfleusterau, gwneud hynny gyda sylw priodol i gydfyfyrwyr/cydweithwyr.

7. **Gwyliau blynyddol**

7.1 Dylech drefnu gwyliau blynyddol gyda'ch goruchwylwyr ac yn unol â gofynion eich rhaglen (e.e. gan beidio â cholli cyfarfodydd adolygu cynnydd a chyrsiau hyfforddiant) ac unrhyw ymrwymiadau i'ch noddwyr.

7.2 Er mwyn eich iechyd a'ch lles, disgwylir i chi gymryd eich gwyliau blynyddol, sef 23 diwrnod y flwyddyn i fyfyrwyr ymchwil amser llawn, ynghyd â'r holl Wyliau Banc a diwrnodau cau'r Brifysgol, a'r hyn sy'n gywerth â pro-rata i fyfyrwyr rhan-amser.

8. **Ymdrin ag anawsterau**

8.1 Mae'n bwysig bod problemau a phryderon yn cael eu codi a'u datrys yn brydlon, a disgwylir i chi eu codi ar y cyfle cyntaf.

8.2 Disgwylir i chi roi gwybod i oruchwylydd, eich Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig, neu unigolyn priodol arall yn eich Ysgol os oes unrhyw anghenion neu ffactorau penodol a allai effeithio ar eich gwaith neu eich cynnydd.

8.3 Dylech roi gwybod am gwynion a phryderon drwy'r Weithdrefn Gwyno i Fyfyrwyr.

9. **Cyflwyno a chwblhau**

9.1 Disgwylir i chi fod wedi cwblhau eich traethawd yn llawn neu lawer ohono erbyn diwedd eich cyfnod astudio pan mae ffioedd yn daladwy, a chyflwyno eich traethawd i'w arholi ymhen yr amserlen a reoleiddir.

9.2 Eich cyfrifoldeb chi yw:

- .1 neilltuo digon o amser i baratoi eich traethawd ysgrifenedig a rhoi sylw arbennig i brawfddarllen y fersiwn derfynol;
- .2 gadael digon o amser i'ch goruchwylwyr wneud sylwadau ar ddrafft terfynol eich traethawd ac ysgwyddo cyfrifoldeb am eu sylwadau ymgynghorol cyn eich dyddiad cyflwyno;
- .3 gwneud yn siŵr bod eich traethawd yn cyrraedd y safon ysgrifennu angenrheidiol ar gyfer yr arholiad;
- .4 gwneud paratoadau priodol ar gyfer yr arholiad viva a mynd i'r arholiad yn unol â'r gofynion;
- .5 rhoi gwybod yn ysgrifenedig am unrhyw amgylchiadau esgusodol neu ofynion am addasiadau rhesymol o ran yr arholiad viva.

9.3 Amlinellir y gofynion o ran fformat a chyflwyno eich traethawd yn y Polisi Cyflwyno Traethodau Gradd Ymchwil.

**Atodiad 1**

1 Mae'r rheoliadau, y polisïau a'r gweithdrefnau canlynol yn ymwneud yn benodol ag astudio gradd ymchwil:

**Rheoliadau Gradd Ymchwil**

**Rheoliadau Asesu Gradd Ymchwil**

**Rheoliadau ar gyfer Doethuriaethau Uwch**

**Rheoliadau ar gyfer PhD drwy Waith a Gyhoeddir**

Gweithdrefn ar gyfer Gwneud Cais, Cyflwyno ac Arholi PhD drwy Weithiau Cyhoeddedig

Gweithdrefn ar gyfer Gwneud Cais, Cyflwyno ac Arholi Doethuriaethau Uwch

Polisi Cyflwyno Traethodau Gradd Ymchwil a'u Diwyg

Polisi a Gweithdrefn ar storio fersiwn derfynol Traethodau Gradd Ymchwil

Polisi a Gweithdrefn ar gyfer Penodi Byrddau Arholi Graddau Ymchwil (arholiad viva)

Polisi a Gweithdrefn ar gyfer Cynnal Arholiadau Gradd Ymchwil

Polisi a Gweithdrefn ar gyfer Trefniant a Phroses Cynnal Arholiadau Gradd Ymchwil (viva) mewn Fformatau Amgen

Polisi a Gweithdrefn ar Atal Mynediad i Draethodau Graddau Ymchwil

Polisi ar Oruchwylio Myfyrwyr Ymchwil

Polisi ar Gyfrifoldebau Myfyrwyr Ymchwil

Polisi a Gweithdrefn ynghylch Monitro Myfyrwyr Ymchwil

Polisi a Gweithdrefn ynghylch Cynnydd neu Ymgysylltiad Anfoddhaol

Polisi a Gweithdrefn Amgylchiadau Esgusodol (Myfyrwyr Ymchwil)

Gweithdrefn a Pholisïau ynghylch Tarfu ar Astudiaethau ac Estyn Terfynau Amser ac Estyniadau iddynt (Myfyrwyr Ymchwil)

Polisi ar Absenoldeb Mamolaeth, Mabwysiadu, Tadolaeth/Partner ac Absenoldeb Rhiant i Fyfyrwyr Ymchwil

Polisi ar Gyflwyno Traethodau Gradd Ymchwil yn Hwyr

Y Weithdrefn ar Gyfer Ail-Gofrestru Cynfyfyrwyr Gradd Ymchwil i'w Harholi

Gweithdrefn Camymddygiad Academaidd (Myfyrwyr Ymchwil)

Polisi a Gweithdrefn ar Ymsefydlu a Hyfforddi Myfyrwyr Ymchwil

2 Mae'r rheoliadau, y polisïau a'r gweithdrefnau canlynol yn berthnasol i'r holl fyfyrwyr:

**Rheoliadau Astudio ac Ymgysylltu Myfyrwyr**

Polisi a Gweithdrefn ynghylch Addasiadau Rhesymol

Gweithdrefn Dychwelyd i Astudio (Myfyrwyr a Addysgir a Myfyrwyr Ymchwil)

Gweithdrefn Dim Ymgysylltu ag Astudiaethau (Myfyrwyr a Addysgir ac Ymchwil)

**Rheoliadau Ymddygiad Myfyrwyr**

Gweithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr

Polisi a Gweithdrefn Ymyrraeth er mwyn Cefnogi

Gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer

Polisi Gonestrwydd Academaidd

**Cwynion, Apeliadau a Rheoliadau Myfyrwyr**

Gweithdrefn Gwyno i Fyfyrwyr

Polisi a Gweithdrefn Apeliadau Academaidd

Gweithdrefn Adolygu'r Brifysgol